**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** **STD 05-01(02)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2001**
**Amser:** **9:30am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Buddiannau Aelodau – y Seiri Rhyddion**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn nodi'r cefndir i ystyriaethau'r Pwyllgor ynghylch yr orfodaeth sydd ar Aelodau'r Cynulliad i gofrestru eu haelodaeth o'r Seiri Rhyddion.

**Cefndir**

2. Bydd Aelodau'n gwybod bod y Seiri Rhyddion wedi gofyn i'r Llywydd adolygu'r orfodaeth i gofrestru a datgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion fel buddiant. Awgrymwyd bod yr orfodaeth hon yn groes i Erthyglau 8 ac 11 o'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac felly ei fod yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a ddaeth i rym ym mis Hydref 2000. Mae'r Llywydd wedi cyfeirio'r mater hwn at y Pwyllgor am gyngor.

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill, rhoddodd Mr James R Bevan, P.J.G.D., Prif Ysgrifennydd y Dalaith, Talaith Seiri Rhyddion De Cymru a Rhanbarth y Dwyrain a Mr John Hamill, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Prif Gyfrinfa Unedig Lloegr, gyflwyniad i'r Pwyllgor. Rhoddodd papur David Lambert i gyfarfod mis Ebrill yr hanes ynghylch gofynion presennol y Cynulliad a gofynion y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 ar y mater hwnnw. Serch hynny, cytunwyd y dylai'r Pwyllgor aros am benderfyniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ar achos a oedd o flaen y Llys hwnnw, cyn ystyried y mater ymhellach.

4. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop bellach wedi cyhoeddi ei ddyfarniad. Ceir cyfieithiad 'answyddogol' o drawsgrifiad y Llys yn Atodiad A.

5. Gwahoddwyd Mr Bevan a Mr Hamill yn ôl, fel y cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Ebrill, i annerch y Pwyllgor ar eu dealltwriaeth hwythau o benderfyniad Llys Hawliau Dynol Ewrop, a darparwyd y papurau perthnasol iddynt ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**